**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

4 Mehefin 2018

Annwyl John,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 15 Mai a oedd yn gofyn am fwy o wybodaeth yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yr oeddwn yn bresennol ynddi ar 9 Mai.

Gweler isod ymateb i'ch cwestiynau.

**Canran y patrymau gweithio'n hyblyg, a nifer y dynion sy'n rhannu absenoldeb rhiant yn Llywodraeth Cymru.**

*Patrymau gweithio'n hyblyg:*

- Mae 21% o staff yn gweithio'n rhan-amser;
- Mae gan 1% o staff yn gweithio yn ystod y tymor ysgol yn unig;
- Mae gan 26% o staff batrwm gwaith nad yw'n batrwm "SAFONOL".

*Absenoldeb rhiant a rennir:*

- Cofnodir bod pedwar dyn wedi rhannu absenoldeb rhiant ar gyfer cyfnod 2017/18.

**Nodyn ar unrhyw hyfforddiant ar recriwtio diduedd y gellir ei ddarparu i fusnesau bach fel rhan o'r Contract Economaidd.**

Mae'r Contract Economaidd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd eisiau cymorth gan Lywodraeth Cymru ymrwymo i dwf, gwaith teg, hyrwyddo iechyd, gwella sgiliau a dysgu yn y gweithle, a lleihau eu hôl troed carbon. Mae'r pwyslais hwn ar waith teg ac ar greu busnesau cyfrifol yn gyfle i Lywodraeth Cymru gysylltu â busnesau i drafod eu harferion recriwtio. Pan fo busnes, yn sgil y trafodaethau hynny, yn nodi ei fod am ddeall yn well yr opsiynau ynghylch sut i fabwysiadu a chryfhau trefniadau recriwtio mwy cynhwysol neu fod angen iddo wneud hynny, bydd busnesau yn cael eu cyfeirio at gynnig Busnes Cymru sy'n darparu cyngor ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth i fusnesau bach a chanolig ar amrywiaeth o bynciau gwahanol gan gynnwys:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- cyngor ar recriwtio – strategaethau, arferion gorau i hybu twf a hyder
- ymgysylltu â staff
- datblygu a gweithredu polisïau
- cydymffurfedd cyfreithiol

Rhoddir y cymorth hwn drwy gyfuniad o wybodaeth a modiwlau dysgu ar-lein, gweithdai a chyngor un i un gan gynghorydd arbenigol.

Yn gywir,

Ken

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport